Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr - Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 19 Mehefin 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5667

216

1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 - 2 a 4 - 9. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Dechreuodd yr eitem am 14.16

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiwn 3 ei ateb gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.12

Gofyn i'r Gweinidog Addysg

Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ymateb i faterion gweinyddol parhaus ym Mhrifysgol Abertawe, gan gynnwys y newyddion diweddar bod y Brifysgol saith mis yn hwyr yn cyhoeddi ei hadroddiad ariannol?

Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

[Caiff y cwestiwn hwn ei ateb gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth]

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag Allied Bakeries yng ngoleuni cyhoeddiad y cwmni y bydd yn atal y gwaith cynhyrchu yn ei safle yn y Mynydd Bychan yng Nghaerdydd, gan roi 180 o swyddi mewn perygl?

4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.29.

Gwnaeth **Elin Jones** ddatganiad am – Dathlu 50 mlynedd o Sali Mali.

Gwnaeth **Mick Antoniw** ddatganiad am – Diwrnod Dyneiddiaeth y Byd (21 Mehefin 2019).

Gwnaeth **Vikki** Howells ddatganiad am – Mis Pride LHDT 2019 a dathlu 20 mlynedd ers Pride cyntaf Caerdydd.

5 Cynnig i ddirymu Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

Dechreuodd yr eitem am 15.35

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

NDM7057 Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.2:

Yn cytuno y dylai Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 9 Mai 2019, gael eu dirymu.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
19	3	27	49

Gwrthodwyd y cynnig.

6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Dysgu Hanes Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.04

NDM7068 Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod hanes Cymru yn cael ei ddysgu i bob disgybl ysgol yng Nghymru yn ddiwahan.

Cyd-gyflwynwyr
Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

7 Dadl ar Ddeiseb P-05-869: Datgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targedau di-garbon ym mhob polisi

Dechreuodd yr eitem am 17.10

NDM7076 Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-05-869 Datgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targedau di-garbon ym mhob polisi' a gasglodd 6,148 o lofnodion.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

8 Dadl Plaid Brexit - Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Dechreuodd yr eitem am 17.57

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

NDM7071 Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Cymru wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd.

2. Yn gresynu na wnaeth y DU adael yr UE ar 29 Mawrth 2019, er gwaethaf sawl addewid gan Lywodraeth y DU i wneud hynny, a bod 498 o ASau wedi pleidleisio i gychwyn proses Erthygl 50 i adael erbyn y dyddiad hwnnw.

3. Yn gwrthod unrhyw estyniad i aelodaeth y DU o'r UE ar ôl 31 Hydref 2019.

4. Yn nodi y gallai gadael heb fargen leihau costau bwyd, dillad ac esgidiau yn sylweddol, ac y bydd yn arbed £39 biliwn i drethdalwyr y DU.

5. Yn penderfynu y dylai'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb ar 31 Hydref 2019 oni bai bod yr UE, o leiaf:

a) Yn cynnig cytundeb masnach rydd cynhwysfawr i'r DU; a

b) Yn derbyn trefniadau amgen yn lle protocol Gogledd Iwerddon

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
4	0	45	49

Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwigio.

Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:

Gwelliant 1 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi bod pobl Cymru wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd ym mis Mehefin 2016.

2. Yn gresynu nad yw'r Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd eto.

3. Yn credu y dylid rhoi canlyniad y refferendwm ar waith.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
9	2	38	49

Gwrthodwyd gwelliant 1.

Gan nad yw'r Cynulliad wedi derbyn y cynnig heb ei ddiwygio, nac wedi derbyn y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig, caiff y cynnig felly ei Wrthod.

9 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.50

10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.52

NDM7069 Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Tlodi yng Nghymru: Beth sy'n ei achosi a beth y gellir ei wneud i'w liniaru.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.13

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2019